# Polisi Addasrwydd i Astudio

## Cynnwys


Polisi Addasrwydd i Astudio mewn Fformat Amgen ........ 2
Crynodeb o'r polisi ........ 2
Cwmpas ........ 3
Yr hyn y mae'r polisi hwn yn ei gwmpasu ........ 3
Yr hyn nad yw'r polisi hwn yn ei gwmpasu ........ 4
Gwerthoedd Siarter Myfyrwyr Y Brifysgol Agored ........ 4
Polisi ........ 5
1. Diben ........ 5
2. Egwyddorion y polisi ........ 6
Y weithdrefn ........ 8
3. Gweithredu a chymhwyso'r weithdrefn ........ 8
4. Cyfrinachedd a rhannu gwybodaeth ........ 16
Dulliau apelio ........ 18
Safonau'r Gymraeg ........ 18
Ymrwymiad i Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn Y Brifysgol Agored ........ 18
Rhoi Gwybod mewn Lle Diogel ........ 19
Geirfa ........ 19
Dogfennaeth Gysylltiedig ........ 24
Eglurhad pellach ........ 25
Adborth ........ 25
Crynodeb o Newidiadau Sylweddol ........ 25
Polisïau a ddisodlir gan y ddogfen hon ........ 27


| Rhif y fersiwn: 1.0 | Cymeradwywyd gan: Pwyllgor Profiad Myfyrwyr, Mai 2023 |
|---|---|
| Yn weithredol o: Mehefin 2023 | Dyddiad adolygu: Mawrth 2024 |


Corfforir Y Brifysgol Agored drwy Siarter Frenhinol (RC 000391), ac mae'n elusen eithriedig yng Nghymru a Lloegr ac yn elusen gofrestredig yn yr Alban (SC 038302). Caiff y Brifysgol Agored ei hawdurdodi a'i rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol mewn perthynas â'i gweithgarwch eilaidd, sef broceru credyd

# Polisi Addasrwydd i Astudio mewn Fformat Amgen

Os bydd angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat amgen, cysylltwch â'r Tîm Cymorth Myfyrwyr drwy Cysylltu â ni (ffoniwch +44 (0)300 303 5303), neu drwy StudentHome os ydych yn un o fyfyrwyr presennol Y Brifysgol Agored.

Ar gyfer ceisiadau sy'n ymwneud â pholisïau i fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig, cysylltwch â'r Tîm Graddau Ymchwil drwy research-degrees-office@open.ac.uk.

# Crynodeb o'r polisi

Mae'r Brifysgol Agored yn ymrwymedig i helpu myfyrwyr i gyflawni eu nodau astudio a rhoi cymorth iddynt drwy gydol eu hamser fel myfyrwyr, yn unol â Siarter Myfyrwyr Y Brifysgol Agored. Rydym yn cydnabod y gall astudio gyfrannu at lesiant cadarnhaol mewn sawl achos.

Mae'r Brifysgol Agored yn fwy na dim ond lle i ddysgu – mae'n gymuned. Fel aelodau o gymuned Y Brifysgol Agored, mae cyfrifoldeb ar bawb i ymddwyn mewn ffyrdd sy'n galluogi'r aelodau i gyd i gyrraedd eu llawn botensial a'r Brifysgol i ffynnu. Datblygodd y Brifysgol a'r Gymdeithas Myfyrwyr y Siarter Myfyrwyr gyda'i gilydd gan nodi'r hyn y gallwn i gyd ei ddisgwyl gan ein gilydd. Mae'r Brifysgol a'r Gymdeithas Myfyrwyr yn cymryd y gwerthoedd a fynegir yn y Siarter Myfyrwyr o ddifrif iawn ac maent yn gwbl ymrwymedig i'w cynnal.

Ein nod yw helpu myfyrwyr i ymgysylltu'n gadarnhaol â phob agwedd ar brofiad y myfyrwyr, gan gynnwys astudiaethau academaidd a bywyd myfyrwyr. Mae Polisi Hygyrchedd Y Brifysgol Agored yn amlinellu ein hymrwymiad i gefnogi ein holl fyfyrwyr mewn ffyrdd sy'n diwallu eu hanghenion yn effeithiol. Rydym yn cydnabod, fodd bynnag, y gall rhai myfyrwyr wynebu amgylchiadau anodd yn ystod eu hastudiaethau, ac y gallant weithredu neu ymddwyn mewn ffyrdd sy'n groes i'r Siarter Myfyrwyr o ganlyniad i'r amgylchiadau anodd hyn. Gellir defnyddio'r polisi hwn i gefnogi myfyrwyr mewn achosion o'r fath lle mae eu hymddygiad yn codi pryderon o fewn Y Brifysgol Agored am eu hiechyd, eu diogelwch neu'u llesiant, a lle mae eu hymddygiad, yn ei dro, yn effeithio ar eu cynnydd academaidd neu'u hastudiaethau. Caiff y polisi hwn ei ddefnyddio hefyd pan fydd ymddygiad myfyriwr yn cael effaith andwyol ar aelodau eraill o'n cymuned, gan gynnwys myfyrwyr eraill a staff, neu'n effeithio ar brosesau addysgu a gweinyddol Y Brifysgol Agored. Mae'r polisi hefyd yn amlinellu rôl Eiriolwr (os caiff un ei benodi gan y myfyriwr) yn y broses.

Mae'r polisi hwn yn amlinellu sut y byddwn yn gweithio gyda myfyrwyr pan fo pryderon am eu hymddygiad a'u gallu i ymgysylltu a pharhau â'u hastudiaethau, er mwyn naill ai roi



Corfforir Y Brifysgol Agored drwy Siarter Frenhinol (RC 000391), ac mae'n elusen eithriedig yng Nghymru a Lloegr ac yn elusen gofrestredig yn yr Alban (SC 038302). Caiff y Brifysgol Agored ei hawdurdodi a'i rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol mewn perthynas â'i gweithgarwch eilaidd, sef broceru credyd

cynllun cymorth personol ar waith, dod i gytundeb y dylai'r myfyriwr gael saib o'i astudiaethau neu roi'r gorau i astudio'n gyfan gwbl, fel y bo'n briodol i'w amgylchiadau.

Os caiff y polisi hwn ei gymhwyso i chi, gobeithio y byddwch yn cytuno i weithio gyda ni er mwyn cynllunio ffordd ymlaen sydd er lles pennaf i chi a'r Brifysgol. Os na fyddwch yn gweithio gyda ni, mae'n bosibl y bydd angen i ni ddilyn y weithdrefn a nodir yn y polisi hwn heb eich cytundeb. Nid oes angen i chi ddatgan neu fod wedi datgan anabledd neu ddiagnosis o gyflwr iechyd er mwyn i'r polisi hwn fod yn gymwys i chi.

# Cwmpas

## Yr hyn y mae'r polisi hwn yn ei gwmpasu

Mae'r polisi hwn yn gymwys i holl fyfyrwyr Y Brifysgol Agored a dysgwyr sy'n astudio cyrsiau â chredydau ar Brentisiaethau, Cymwysterau Galwedigaethol neu Ficrogymwysterau a gynigir gan Y Brifysgol Agored, sy'n cynnwys

- Myfyrwyr israddedig a addysgir
- Myfyrwyr ôl-raddedig a addysgir
- Myfyrwyr Ymchwil Ôl-raddedig
- Myfyrwyr TAR (Cymru)
- Myfyrwyr ar leoliad seiliedig ar waith (e.e. cymwysterau nyrsio neu waith cymdeithasol)
- Dysgwyr microgymwysterau
- Dysgwyr ar brentisiaethau
- Dysgwyr cymwysterau galwedigaethol.

Mae'r polisi hwn yn cwmpasu ymddygiad yn ystod y canlynol:

- Cyswllt â staff dros y ffôn, drwy e-bost, drwy ffurflen we, yn ystod cyfarfodydd ar-lein neu wyneb yn wyneb
- Tiwtorialau
- Ysgolion dydd ac ysgolion preswyl
- Fforymau ar-lein a gynhelir gan Y Brifysgol Agored
- Safleoedd cyfryngau cymdeithasol a gaiff eu monitro gan Y Brifysgol Agored. Fodd bynnag os nad yw'r Brifysgol Agored yn monitro safle cyfryngau cymdeithasol, dim ond os bydd myfyrwyr neu staff yn tynnu ein sylw at bryderon y gallwn weithredu
- Digwyddiadau ar-lein neu wyneb yn wyneb eraill a gynhelir gan Y Brifysgol Agored



Corfforir Y Brifysgol Agored drwy Siarter Frenhinol (RC 000391), ac mae'n elusen eithriedig yng Nghymru a Lloegr ac yn elusen gofrestredig yn yr Alban (SC 038302). Caiff y Brifysgol Agored ei hawdurdodi a'i rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol mewn perthynas â'i gweithgarwch eilaidd, sef broceru credyd

## Yr hyn nad yw'r polisi hwn yn ei gwmpasu

Nid yw'r polisi hwn yn gymwys i unigolion nad ydynt yn fyfyrwyr Y Brifysgol Agored eto (ymholwyr), nac i ddysgwyr sy'n astudio cwrs byr, deunyddiau OpenLearn neu Futurelearn neu gyrsiau eraill nad ydynt yn seiliedig ar gredydau, nac i Ddysgwyr sy'n astudio Microgymhwyster ar Futurelearn lle na chaiff cynnwys y cwrs ei ddarparu gan Y Brifysgol Agored.

Caiff myfyrwyr sy'n astudio gyda sefydliadau partner neu sefydliadau a ddilyswyd eu cwmpasu gan bolisïau'r sefydliad lle maent yn astudio.

Gall rhwymedigaethau trechol ar wahân ei gwneud yn ofynnol i fyfyrwyr sy'n astudio rhai disgyblaethau (e.e. Nyrsio, Gwaith Cymdeithasol neu addysgu sy'n ddarostyngedig i ofynion Cyrff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddiol) ddatgan problemau iechyd sylweddol a allai amharu ar eu gallu i ymarfer. Os bydd mater addasrwydd i ymarfer yn codi, y Polisi Addasrwydd i Ymarfer neu reoliadau'r Cyrff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddiol perthnasol, fel y bo'n berthnasol, fydd yn cael blaenoriaeth. Ceir rhagor o wybodaeth yn y Polisi Addasrwydd i Ymarfer.

Os nad ydych yn siŵr a yw'r polisi hwn yn gymwys i chi, siaradwch â'r cyswllt priodol ar gyfer eich cymhwyster neu gwrs (gweler Eglurhad Pellach).

Nid yw'r polisi'n cwmpasu cwynion gan fyfyrwyr am ymddygiad staff.  Dylid cyflwyno cwynion o'r fath drwy'r Weithdrefn Gwyno ac Apelio neu drwy Report + Support, sef adnodd Rhoi Gwybod Mewn Lle Diogel Y Brifysgol Agored, er mwyn rhoi gwybod am unrhyw fath o wahaniaethu, bwlio neu aflonyddu.

## Gwerthoedd Siarter Myfyrwyr Y Brifysgol Agored

Cafodd y Siarter Myfyrwyr ei ddatblygu ar y cyd gan Y Brifysgol Agored a Chymdeithas Myfyrwyr Y Brifysgol Agored. Mae'n ddatganiad o'r gwerthoedd rydym yn eu rhannu a'r ymrwymiadau a wnawn i'n gilydd. Cafodd y ddogfen hon ei datblygu yn seiliedig ar werthoedd y Siarter Myfyrwyr.

Mae'r ddogfen hon yn cyd-fynd yn benodol â'r Gwerthoedd canlynol a nodir yn Siarter Myfyrwyr Y Brifysgol Agored:

1. Rydym yn trin ein gilydd â chwrteisi a pharch, gan barchu hawliau unigolion i arddel credoau a safbwyntiau gwahanol a'u mynegi'n briodol.



Corfforir Y Brifysgol Agored drwy Siarter Frenhinol (RC 000391), ac mae'n elusen eithriedig yng Nghymru a Lloegr ac yn elusen gofrestredig yn yr Alban (SC 038302).  Caiff y Brifysgol Agored ei hawdurdodi a'i rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol mewn perthynas â'i gweithgarwch eilaidd, sef broceru credyd

2 Rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth, yn rhagweld ac yn herio anghydraddoldebau, ac yn ymrwymo i fod yn brifysgol wrth-hiliol, gwrth-wahaniaethol, hygyrch a chynhwysol, fel bod pawb yn teimlo ymdeimlad o berthyn.

4 Rydym yn cyfathrebu â'n gilydd mewn ffyrdd clir, perthnasol, cywir ac amserol.

7 Rydym yn ymddwyn yn foesol ac yn dryloyw, gan ddarparu a defnyddio ffyrdd teg ac agored o fynd i'r afael â'n pryderon a'n cwynion, gan ddysgu ohonynt.

8 Rydym yn herio achosion o fwlio ac aflonyddu ac yn ymrwymo i gefnogi iechyd meddwl a llesiant pob aelod o gymuned ein Prifysgol.

9 Fel myfyrwyr, rydym yn rhannu'r cyfrifoldeb dros ddysgu ac yn ymrwymo i astudio ac ymchwilio gan ddefnyddio'r adnoddau a'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael, gan gynnal y safonau uchaf o ran uniondeb academaidd.

11 Rydym yn gweithio i gynnal a gwella safonau ac enw da ein Prifysgol, gan gydnabod cyfraniad pob aelod at ei llwyddiant.

# Polisi

## 1. Diben

1.1 Diben y polisi hwn yw amlinellu sut y byddwn yn gweithio gyda chi i'ch helpu i ymgymryd â'ch astudiaethau mewn ffordd gadarnhaol, yn ystod a/neu ar ôl cyfnod o bryder am eich iechyd, eich diogelwch a'ch llesiant, sydd wedi effeithio ar eich cynnydd academaidd neu'ch ymgysylltiad â'ch astudiaethau.

1.2 Amcanion y polisi hwn yw:

1.2.1 Annog ymyriadau cynnar a chydweithredu gweithredol rhyngoch chi, unrhyw Eiriolwr y byddwch yn ei benodi, ac aelodau staff, i fynd i'r afael ag effaith unrhyw anawsterau corfforol, emosiynol neu lesiant rydych yn eu hwynebu ar eich addasrwydd i astudio.

1.2.2 Eich helpu i barhau â'ch cynlluniau astudio yn y ffordd fwyaf priodol i'ch amgylchiadau.

1.2.3 Lle y bo'n briodol, cytuno ar Gynllun Gweithredu gyda chi a fydd yn eich helpu i barhau â'ch astudiaethau, neu benderfynu a fyddai cymryd seibiant o astudio o fudd i chi.

1.2.4 Sicrhau y gallwch ddychwelyd yn hwylus i astudio ar ôl cytuno bod angen seibiant arnoch o astudio.



Corfforir Y Brifysgol Agored drwy Siarter Frenhinol (RC 000391), ac mae'n elusen eithriedig yng Nghymru a Lloegr ac yn elusen gofrestredig yn yr Alban (SC 038302). Caiff y Brifysgol Agored ei hawdurdodi a'i rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol mewn perthynas â'i gweithgarwch eilaidd, sef broceru credyd

1.2.5 Darparu dull cefnogol amgen o weithio lle nad yw dull disgyblu mwy ffurfiol yn briodol.

## 2. Egwyddorion y polisi

2.1 Mae'r Brifysgol Agored yn cydnabod bod cyflyrau iechyd meddwl a chorfforol yn cael eu dosbarthu'n anableddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, ac o dan Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 yng Ngogledd Iwerddon. Mae'r polisi hwn yn helpu i sicrhau ein bod yn osgoi gwahaniaethu ar sail anabledd. Rydym yn cydnabod y gall fod yn anos cymryd rhan lawn yn eich astudiaethau, neu gyflawni disgwyliadau cymuned Y Brifysgol Agored fel y nodir yn y Siarter Myfyrwyr pan fyddwch yn mynd drwy gyfnod anodd, boed yn feddyliol, yn gorfforol neu'n emosiynol.

2.2 Os byddwch yn gweithredu neu'n ymddwyn mewn ffyrdd sy'n groes i'r Siarter Myfyrwyr, byddwn yn rhoi gwybod i chi am ein pryderon ac yn cynnig cymorth, a byddwn hefyd yn amddiffyn myfyrwyr eraill ac aelodau o staff y gallech fod wedi effeithio arnynt. Mae'r Rhestr Termau yn cynnwys enghreifftiau o'r math o ymddygiad y gellir ystyried ei fod yn groes i'r Siarter Myfyrwyr. Os bydd yr ymddygiad hwn yn parhau dros gyfnod o amser, byddwn yn defnyddio'r polisi hwn i roi gwybod i chi am ein pryderon a byddwn yn rhoi mesurau priodol ar waith fel y gallwn eich cefnogi a thrin a datrys y pryderon hyn fel y gallwch barhau i astudio a chyflawni eich nodau academaidd.

2.3 Byddwn hefyd yn gweithredu o dan y polisi hwn os credwn nad yw eich ymddygiad neu benderfyniadau mewn perthynas â'ch astudiaethau er lles pennaf eich iechyd a'ch llesiant.

2.4 Os oes gan staff bryderon sylweddol am eich addasrwydd i astudio, byddant yn defnyddio'r polisi hwn i fynd i'r afael â'r pryderon hynny. Noder y gall staff sylwi ar ymddygiadau nad ydych chi eich hun yn ymwybodol ohonynt.

2.5 Os caiff y polisi hwn ei gymhwyso i chi, gobeithio y byddwch yn cytuno i weithio gyda ni er mwyn cynllunio ffordd ymlaen sydd er lles pennaf i chi a'r Brifysgol. Os na allwch weithio gyda ni neu os byddwch yn dewis peidio â gwneud hynny, mae'n bosibl y bydd angen i ni ddilyn y weithdrefn a amlinellir yn y polisi hwn heb eich cytundeb.

2.6 Caiff y polisi ei roi ar waith drwy weithdrefn tri cham. Byddwn yn dechrau â'r Cam sy'n briodol i lefel y cymorth sydd ei angen arnoch, nid Cam 1 o reidrwydd.



Corfforir Y Brifysgol Agored drwy Siarter Frenhinol (RC 000391), ac mae'n elusen eithriedig yng Nghymru a Lloegr ac yn elusen gofrestredig yn yr Alban (SC 038302). Caiff y Brifysgol Agored ei hawdurdodi a'i rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol mewn perthynas â'i gweithgarwch eilaidd, sef broceru credyd

2.7 O dan amgylchiadau eithriadol, mae'n bosibl y bydd angen i ni ystyried atal eich astudiaethau ar unrhyw adeg yn ystod y weithdrefn Addasrwydd i Astudio. Gallwn wneud hyn o dan yr amgylchiadau canlynol:

- pan fo gennym bryderon difrifol am eich iechyd, eich diogelwch a'ch llesiant neu ddiogelwch a llesiant myfyrwyr eraill neu aelodau staff, o ganlyniad i'ch ymddygiad.
- pan fo'ch ymddygiad yn cael effaith ddifrifol ar ein prosesau addysgu, cefnogi neu weinyddu.

O dan y fath amgylchiadau, gall y Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Cymorth Myfyrwyr (ar gyfer unrhyw fyfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig a addysgir, ac unrhyw ddysgwyr), neu Gyfarwyddwr yr Ysgol i Raddedigion (ar gyfer myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig) atal eich astudiaethau hyd nes y gellir ymgynnull Panel Cynhadledd Achos, a gwneud penderfyniad ar Gam 3 y weithdrefn Addasrwydd i Astudio. Ni fyddwn yn cymryd y camau hyn oni bai bod yr awdurdod perthnasol o'r farn bod angen gwneud hynny ar frys o ystyried natur y pryderon. Caiff y rhesymau dros y penderfyniad eu cofnodi'n ysgrifenedig a'u rhannu â chi.

2.8 Drwy gydol tri Cham y broses Addasrwydd i Astudio, gallwch enwebu rhywun i fod yn Eiriolwr ar eich rhan, a siarad ac ymdrin yn uniongyrchol â'r Brifysgol Agored ar eich rhan. Ceir rhagor o wybodaeth am ddefnyddio Eiriolwr yn ein dogfen Eirioli: canllawiau a gweithdrefn.

2.9 Mewn rhai amgylchiadau, gall ddod i'r amlwg bod angen mwy o gymorth arnoch na'r hyn y gall Y Brifysgol Agored ei gynnig yn rhesymol. Os felly, efallai y byddwn yn awgrymu y dylech geisio cymorth allanol, er enghraifft gan eich meddyg teulu neu wasanaethau/cyrff proffesiynol eraill, ynghyd â'r gweithdrefnau a nodir isod.

2.10 Os bydd eich ymddygiad yn peri pryder o hyd er gwaethaf y cymorth a roddir drwy weithdrefn Addasrwydd i Astudio, neu os byddwch yn ymddwyn mewn ffordd ymosodol tuag at staff neu fyfyrwyr Y Brifysgol Agored, efallai y bydd angen i'r Brifysgol Agored ddilyn polisïau amgen fel y Cod Ymarfer ar gyfer Disgyblu Myfyrwyr.

2.11 Er y bydd Y Brifysgol Agored bob amser yn ceisio cydweithio â chi mewn ffordd sy'n teimlo'n gyfforddus, os bydd eich iechyd neu eich ymddygiad yn peri risg ddifrifol ac uniongyrchol i chi neu i eraill, bydd yn ofynnol i ni gymryd camau brys, fel cysylltu â'r gwasanaethau brys.



Corfforir Y Brifysgol Agored drwy Siarter Frenhinol (RC 000391), ac mae'n elusen eithriedig yng Nghymru a Lloegr ac yn elusen gofrestredig yn yr Alban (SC 038302). Caiff y Brifysgol Agored ei hawdurdodi a'i rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol mewn perthynas â'i gweithgarwch eilaidd, sef broceru credyd

Gallwn gymryd y camau brys hyn heb eich cydsyniad neu gytundeb. Os gwnawn hynny, byddwn yn ceisio sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn gymesur o dan yr amgylchiadau.

2.12 Gallai fod rhwymedigaeth statudol arnom i hysbysu adrannau mewnol eraill fel y Tîm Atgyfeiriadau Diogelu neu'r Cydgysylltydd Prevent am ymddygiadau penodol sy'n peri pryder, a gall fod angen i ni rannu gwybodaeth berthnasol â phartïon allanol hefyd. Am ragor o wybodaeth am sut y gallai fod angen i ni rannu eich data a darpariaethau Deddf Diogelu Data 2018, gweler adran 4 – Cyfrinachedd a Rhannu Gwybodaeth.

2.13 Os hoffech godi neu drafod unrhyw bryderon am y ffordd y mae'r Brifysgol Agored yn cymhwyso'r polisi hwn i chi, neu rywun rydych yn eirioli drosto, defnyddiwch y Weithdrefn Gwyno ac Apelio i Fyfyrwyr.

# Y weithdrefn

## 3. Gweithredu a chymhwyso'r weithdrefn

3.1 Wrth weithredu'r polisi hwn, byddwn yn dilyn yr egwyddorion cyffredinol canlynol:

3.1.1 Byddwn yn sicrhau eich bod yn ymwybodol o'r Polisi Addasrwydd i Astudio hwn ac unrhyw bolisïau eraill sy'n berthnasol a byddwn yn eich helpu i ddeall y gweithdrefnau y byddwn yn eu dilyn.

3.1.2 Byddwn yn trafod ein pryderon â chi ac yn rhoi cyfle i chi ymateb iddynt, yn ogystal â chyfle i fynd i'r afael â'r ymddygiadau sy'n peri'r pryderon hyn.

3.1.3 Byddwn yn ceisio ymateb mewn ffordd amserol, gan roi gwybod i chi am amserlenni disgwyliedig unrhyw gamau gweithredu pellach y gall fod angen eu cymryd.

3.1.4 Byddwn yn pennu amserlenni clir ar gyfer pob un o'n camau gweithredu a'ch ymatebion, gan gynnwys amserlenni ar gyfer gwella ac adolygu.

3.1.5 Byddwch yn cael copi o unrhyw gynlluniau gweithredu neu gymorth y cytunir arnynt ar bob cam, yn ogystal â chrynodeb o'r holl gyfarfodydd a gynhelir â chi.

3.1.6 Caiff unrhyw gofnod a wneir yn ystod y broses hon ei gadw ar eich cofnod myfyriwr yn unol â'n Hysbysiad Preifatrwydd Myfyrwyr.

Caiff ei drin yn gwbl gyfrinachol a dim ond y rhai sydd â rôl i'w chwarae yn y broses Addasrwydd i Astudio a gaiff ei weld.

3.1.7 Byddwn yn ceisio gweithredu er eich lles pennaf, yn ein barn ni, gan ddiogelu llesiant myfyrwyr eraill a'n staff ar yr un pryd.

3.2 Os ydych yn ymgymryd â lleoliad gwaith fel rhan o'ch astudiaethau a'ch bod chi, myfyriwr arall neu aelod o'r staff yn codi pryderon am eich ymddygiad a'ch gallu i ymgysylltu'n briodol â'ch astudiaethau neu bobl eraill, gall Y Brifysgol Agored ddilyn y Polisi Addasrwydd i Ymarfer fel y prif ganllawiau lle y bo'n briodol, ond gall hefyd gyfeirio at y polisi hwn yn lle'r Polisi Addasrwydd i Ymarfer, neu ochr yn ochr ag ef.

3.3 Os ydych wedi eich cofrestru ar y rhaglen TAR yng Nghymru, gall y polisi hwn gael ei ddefnyddio yn lle'r Fframwaith Cymorth i Fyfyrwyr, neu ochr yn ochr ag ef, fel y bo Tîm y Rhaglen TAR yn ystyried yn briodol.

3.4 Drwy gydol tri Cham y broses Addasrwydd i Astudio, gallwch benodi Eiriolwr i'ch cynrychioli mewn unrhyw drafodaeth â'r Brifysgol Agored. Efallai y byddwch am wneud hyn os byddwch yn cael trafferth siarad drosoch chi eich hun neu er mwyn deall y broses a ddefnyddir. Ceir rhagor o wybodaeth am y dull o benodi Eiriolwr yn Eiriolaeth: canllawiau a gweithdrefn.

3.5 Gall ffrind neu gynrychiolydd fod gyda chi hefyd, er mwyn rhoi rhywfaint o gefnogaeth bersonol i chi os nad oes gennych Eiriolwr.

3.6 Os byddwch yn dewis peidio â chymryd rhan yn y broses Addasrwydd i Astudio, efallai y byddwn yn dilyn y polisi heb eich cytundeb. Fodd bynnag, os byddwch yn gwrthod cymryd y camau a bennir gennym i'ch helpu i fynd i'r afael â'r pryderon am eich ymddygiad, efallai y bydd angen i'r Brifysgol Agored ddilyn polisïau amgen fel y Cod Ymarfer ar gyfer Disgyblu Myfyrwyr.

## 3.7 Cam 1 – Pryderon sy'n Codi

3.7.1 Rydym yn gobeithio, drwy weithredu'n gynnar, y gellir datrys y rhan fwyaf o bryderon ar Gam 1.

3.7.2 Os codir pryderon am yr effaith y mae eich llesiant meddyliol, corfforol neu emosiynol yn ei chael ar eich astudiaethau neu'ch addysg, neu fod eich ymddygiad yn effeithio ar lesiant myfyrwyr eraill, staff neu brosesau gweinyddol Y Brifysgol Agored, bydd person priodol sy'n gyfarwydd â rhoi cymorth mewn perthynas ag anawsterau iechyd meddwl, corfforol ac emosiynol yn cysylltu â chi.



Corfforir Y Brifysgol Agored drwy Siarter Frenhinol (RC 000391), ac mae'n elusen eithriedig yng Nghymru a Lloegr ac yn elusen gofrestredig yn yr Alban (SC 038302). Caiff y Brifysgol Agored ei hawdurdodi a'i rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol mewn perthynas â'i gweithgarwch eilaidd, sef broceru credyd

3.7.3 Bydd yr aelod o staff sy'n cysylltu â chi yn egluro pam ein bod yn pryderu am eich ymddygiad. Os yw'n berthnasol, bydd yn gofyn i chi a ydych yn cydsynio i ni ddefnyddio a storio unrhyw data categori arbennig y byddwch yn eu rhannu â ni mewn perthynas â'r polisi hwn. Nid yw'n orfodol i chi rannu unrhyw wybodaeth ychwanegol â ni, ond po fwyaf o wybodaeth fydd gan Y Brifysgol Agored, po fwyaf o help, cymorth a chefnogaeth y gallwn eu rhoi.

3.7.4 Bydd yr aelod o'r staff yn gweithio gyda chi i gytuno ar y camau y dylid eu cymryd i fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd, gan gynnwys nodi unrhyw ffynonellau cymorth priodol, a chytuno ar amserlen ar gyfer adolygu'r mater. Byddwch yn cael cofnod o'r drafodaeth hon a'r amserlenni y cytunwyd arnynt ar gyfer gweithredu ac adolygu. Cedwir y wybodaeth hon ar eich cofnod myfyriwr.

3.7.5 Byddwn yn hysbysu aelodau o'r staff sy'n eich cefnogi chi a'ch astudiaethau, y mae angen iddynt wybod bod cynllun gweithredu ar waith. Os ydych yn astudio fel rhan o Raglen Brentisiaeth, yn dilyn y rhaglen nyrsio cyn cofrestru neu'r rhaglen gwaith cymdeithasol, neu'n astudio am Gymhwyster Galwedigaethol neu TAR yng Nghymru, efallai y caiff eich cyflogwr ei hysbysu am y pryderon a godwyd am eich llesiant emosiynol, meddyliol neu gorfforol a'r effaith y mae'n ei chael ar eich astudiaethau neu'ch addysg.

3.7.6 Pan fo'n amser adolygu'r sefyllfa, bydd aelod priodol o'r staff yn cysylltu â chi i drafod eich cynnydd. Os bydd y camau y cytunwyd arnynt wedi cael eu dilyn ac nad oes gan Y Brifysgol Agored unrhyw bryderon mwyach, caiff y mater ei gau. Caiff cofnod o'r drafodaeth adolygu ei anfon atoch, gan gynnwys cadarnhad bod y broses Addasrwydd i Astudio wedi dod i ben. Cedwir y wybodaeth hon ar eich cofnod myfyriwr.

3.7.7 Fodd bynnag, os bydd gennych chi neu'r Brifysgol Agored bryderon am eich ymddygiad o hyd, bydd yr aelod o'r staff sy'n cynnal yr adolygiad yn trafod y pryderon ag Uwch-awdurdod perthnasol er mwyn cytuno ar y camau y dylid eu cymryd er mwyn rhoi mwy o gefnogaeth i chi. Os bydd gan yr Uwch-awdurdod bryderon parhaus neu ddifrifol am eich iechyd, neu eich llesiant meddyliol neu emosiynol, byddwn yn symud ymlaen i Gam 2.



Corfforir Y Brifysgol Agored drwy Siarter Frenhinol (RC 000391), ac mae'n elusen eithriedig yng Nghymru a Lloegr ac yn elusen gofrestredig yn yr Alban (SC 038302). Caiff y Brifysgol Agored ei hawdurdodi a'i rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol mewn perthynas â'i gweithgarwch eilaidd, sef broceru credyd

## 3.8 Cam 2 – Pryderon Parhaus neu Ddwysach

3.8.1 Pan gaiff pryderon eu codi ar Gam 2, bydd Uwch-awdurdod yn cysylltu â chi ac yn rhoi gwybod i chi bod gennym bryderon difrifol am effaith ymddygiad a achosir gan eich llesiant neu'ch iechyd corfforol, emosiynol neu feddyliol, neu fod trefniadau blaenorol i ddatrys pryderon am eich ymddygiad wedi methu a bod angen cymryd mwy o gamau cefnogol.

3.8.2 Os ydych yn astudio fel rhan o Raglen Brentisiaeth, yn dilyn y rhaglen nyrsio cyn cofrestru neu'r rhaglen gwaith cymdeithasol, neu'n astudio am Gymhwyster Galwedigaethol neu TAR yng Nghymru, byddwn yn hysbysu eich cyflogwr ac yn gofyn iddo helpu i'ch cefnogi drwy'r cam hwn.

3.8.3 Cewch eich gwahodd i gyfarfod ffurfiol. Cynhelir y cyfarfod hwn dros y ffôn fel arfer, ond gellir hefyd ei gynnal ar-lein neu wyneb yn wyneb, a bydd yn ystyried yr effaith y mae eich ymddygiad yn ei chael arnoch chi a/neu ar fyfyrwyr eraill neu staff Y Brifysgol Agored. Yn bresennol yn y cyfarfod bydd yr Uwch-awdurdod ac aelodau eraill o staff sy'n briodol i'ch cymhwyster.

3.8.4 Os ydych yn dymuno, gallwch ofyn i'ch Eiriolwr, os ydych wedi penodi un, a/neu ffrind neu gynrychiolydd fod yn bresennol gyda chi yn ystod y cyfarfod, er mwyn rhoi cefnogaeth bersonol ychwanegol i chi.

3.8.5 I'ch helpu i baratoi ar gyfer y cyfarfod hwn, byddwn yn rhoi gwybod i chi os oes unrhyw wybodaeth y byddai'n ddefnyddiol i chi ei darparu, a fydd yn helpu'r Uwch-awdurdod ac aelodau eraill o'r staff i ddeall beth sydd er eich lles pennaf er mwyn parhau â'ch astudiaethau. Nid oes rhwymedigaeth arnoch i ddatgelu unrhyw wybodaeth bersonol na phreifat, ond po fwyaf o wybodaeth fydd gan Y Brifysgol Agored, po fwyaf o help, cymorth a chefnogaeth y gallwn eu rhoi.

Cyn y cyfarfod hwn, efallai y gofynnir i chi ddarparu tystiolaeth feddygol neu dystiolaeth arall gan weithiwr proffesiynol cymwys addas sy'n rhoi ei farn ar eich addasrwydd i astudio. Os na fyddwch yn gwneud hynny, bydd yr Uwch-awdurdod ac aelodau eraill o'r staff yn gofyn am eich cydsyniad fel y gallwn gael y dystiolaeth hon. Os na fyddwch yn rhoi cydsyniad i ni gael y dystiolaeth ategol hon, gall yr Uwch-awdurdod fynd ati i ystyried eich achos ar sail y dystiolaeth sydd ar gael iddo ar y pryd.



Corfforir Y Brifysgol Agored drwy Siarter Frenhinol (RC 000391), ac mae'n elusen eithriedig yng Nghymru a Lloegr ac yn elusen gofrestredig yn yr Alban (SC 038302). Caiff y Brifysgol Agored ei hawdurdodi a'i rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol mewn perthynas â'i gweithgarwch eilaidd, sef broceru credyd

Dylech fod yn ymwybodol y bydd yn anodd i'r Uwch-awdurdod ystyried eich achos yn llawn heb y dystiolaeth feddygol neu broffesiynol ategol y gofynnir amdani.

3.8.6 Mae dau ganlyniad i'r cyfarfod Cam 2 hwn:

i) Datblygu Cynllun Gweithredu. Os bydd y drafodaeth yn y cyfarfod ffurfiol yn awgrymu y byddai o fudd i chi barhau i astudio, byddwn yn gweithio gyda chi i ddatblygu Cynllun Gweithredu ar gyfer gwella a chytuno arno. Bydd y Cynllun Gweithredu yn amlinellu'r amodau y bydd angen i chi eu bodloni er mwyn parhau i astudio, y gwelliannau sydd eu hangen, yr hyn y bydd Y Brifysgol Agored yn ei wneud i'ch cefnogi, yn ogystal â dyddiad adolygu. Bydd hefyd yn amlinellu beth fydd yn digwydd os na fyddwch yn dilyn y Cynllun Gweithredu nac yn gwneud y gwelliannau disgwyliedig.

   Byddwn yn eich hysbysu am enw a manylion cyswllt yr aelod o'r staff a fydd yn eich cefnogi drwy gydol cyfnod y Cynllun Gweithredu ac yn gweithio gyda chi i fonitro eich cynnydd yn erbyn y Cynllun Gweithredu. Byddwn yn anfon copi o'r Cynllun Gweithredu atoch ynghyd â chrynodeb o gyfarfod Cam 2 ac yn cadw copi o'r ddau ar eich cofnod myfyriwr.

ii) Symud ymlaen i Gam 3 – Pryderon Sylweddol. Os bydd y drafodaeth yn ystod cyfarfod Cam 2 yn awgrymu mai'r peth gorau i chi ei wneud fyddai rhoi'r gorau i astudio am gyfnod penodol er mwyn rhoi'r cyfle i chi geisio rhagor o gymorth allanol neu broffesiynol, byddwn yn symud ymlaen i Gam 3.

   Byddwn yn anfon crynodeb ysgrifenedig atoch o'r cyfarfod o fewn 10 diwrnod gwaith i ddyddiad y cyfarfod. Caiff copi ei gadw ar eich cofnod myfyriwr.

## 3.9 Adolygiad Cam 2

3.9.1 Ar ôl i chi gwblhau Cynllun Gweithredu Cam 2 neu os bydd y cyfnod y cytunwyd arno ar gyfer gwneud gwelliannau wedi dod i ben, cewch eich gwahodd i gyfarfod adolygu, gyda'r aelod(au) o staff sydd wedi bod yn eich cefnogi drwy gydol y broses, er mwyn asesu eich cynnydd. Gall eich Eiriolwr fod yn bresennol yn y cyfarfod hwn hefyd,



Corfforir Y Brifysgol Agored drwy Siarter Frenhinol (RC 000391), ac mae'n elusen eithriedig yng Nghymru a Lloegr ac yn elusen gofrestredig yn yr Alban (SC 038302). Caiff y Brifysgol Agored ei hawdurdodi a'i rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol mewn perthynas â'i gweithgarwch eilaidd, sef broceru credyd

os ydych wedi penodi un, a gallwch hefyd ofyn i ffrind neu gynrychiolydd ddod gyda chi i'ch cefnogi.

3.9.2 Os byddwch chithau a ninnau yn fodlon nad oes unrhyw bryderon heb eu datrys, caiff hyn ei gofnodi a chaiff y Cynllun Gweithredu ei gau. Cedwir nodyn ar eich cofnod myfyriwr i ddangos bod y penderfyniad hwn wedi cael ei wneud ar y cyd. Caiff cofnod ysgrifenedig o'r cyfarfod hwn ei anfon atoch, yn cadarnhau bod yr holl gamau gweithredu wedi cael eu cymryd a bod y broses Addasrwydd i Astudio wedi dod i ben. Caiff copi o'r crynodeb hwn a chopi o'r cynllun gweithredu a gwblhawyd eu cadw ar eich cofnod myfyriwr.

3.9.3 Os nad ydych wedi llwyddo i ddilyn y Cynllun Gweithredu y cytunwyd arno a/neu os oes pryderon o hyd, gall eich achos gael ei uwchgyfeirio i Gam 3. Gellir defnyddio Cam 3 hefyd os byddwch wedi cytuno y byddai'n fwy priodol i chi roi'r gorau i'ch astudiaethau am gyfnod o amser.

## 3.10 Cam 3 – Pryderon Sylweddol

3.10.1 Ar Gam 3, caiff Panel Cynhadledd Achos ei gynnull sy'n cynnwys staff academaidd perthnasol a staff cymorth myfyrwyr. Bydd y panel yn cynnwys aelodau ychwanegol yn achos myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig (bydd yn cynnwys aelod o'r tîm Graddau Ymchwil), Prentisiaid neu'r rhai sy'n astudio am Gymhwyster Galwedigaethol (bydd yn cynnwys cynrychiolydd o'u Cyflogwr), a myfyrwyr TAR (Cymru) (bydd yn cynnwys aelod o staff o'r Ysgol Gyflogi).

Bydd y Panel Cynhadledd Achos yn cynnal cyfarfod dros y ffôn, ar-lein, neu wyneb yn wyneb. Cewch eich gwahodd i fod yn bresennol yn y cyfarfod hwn gyda'ch Eiriolwr (os ydych wedi penodi un), a ffrind neu gynrychiolydd a enwebwyd gennych er mwyn rhoi cefnogaeth bersonol i chi.

3.10.2 Cyn y cyfarfod, gofynnir i chi ddarparu tystiolaeth feddygol neu dystiolaeth arall gan weithiwr proffesiynol cymwys addas sy'n rhoi ei farn ar eich addasrwydd i astudio gyda'r Brifysgol Agored. Os na allwch ddarparu'r dystiolaeth hon, byddwn yn gofyn am eich cydsyniad fel y gallwn gael y dystiolaeth hon. Os na fyddwch yn cytuno i roi'r dystiolaeth hon nac yn rhoi cydsyniad i ni ei chael, gall y Panel fynd ati i ystyried eich achos ar sail y dystiolaeth sydd ar gael iddo ar y pryd.



Corfforir Y Brifysgol Agored drwy Siarter Frenhinol (RC 000391), ac mae'n elusen eithriedig yng Nghymru a Lloegr ac yn elusen gofrestredig yn yr Alban (SC 038302). Caiff y Brifysgol Agored ei hawdurdodi a'i rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol mewn perthynas â'i gweithgarwch eilaidd, sef broceru credyd

Dylech fod yn ymwybodol y bydd yn anodd i'r Panel ystyried eich achos yn llawn heb dystiolaeth feddygol neu broffesiynol ategol.

3.10.3 Bydd y Panel yn trafod eich achos gyda chi er mwyn penderfynu pa un o'r tri opsiwn isod sy'n gymwys:

i) Datblygu Cynllun Gweithredu Manylach: bydd y Cynllun hwn yn seiliedig ar unrhyw Gynllun Gweithredu presennol a chaiff ei ddatblygu gyda chi.

ii) Seibiant Astudio/Dysgu: Diben seibiant astudio neu ddysgu yw rhoi amser i chi fynd i'r afael â'ch problemau llesiant neu iechyd corfforol neu feddyliol. Efallai na fydd seibiant astudio neu ddysgu yn opsiwn i bob myfyriwr neu ddysgwr. Felly, bydd y Panel Cynhadledd Achos yn trafod eich amgylchiadau a'ch opsiynau gyda chi wrth ystyried yr argymhelliad hwn. Bydd hefyd yn nodi'r amodau y bydd yn rhaid i chi eu bodloni cyn ailgofrestru i gwblhau eich astudiaethau.

Pan fydd y Panel yn pennu bod hwn yn gam priodol i'w gymryd, bydd yn gwneud argymhelliad i'r Uwch-swyddog priodol ac yn nodi am ba hyd y dylai'r seibiant astudio neu ddysgu bara. Yn achos myfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig a addysgir a dysgwyr o bob categori, gwneir argymhelliad i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymorth Myfyrwyr. Yn achos Prentisiaid neu ddysgwyr Cymwysterau Galwedigaethol, caiff argymhelliad ynghylch seibiant dysgu ei wneud i gyflogwr y dysgwr hefyd. Yn achos myfyrwyr TAR (Cymru), caiff argymhelliad ynghylch seibiant astudio ei wneud i Ysgol Gyflogi'r myfyriwr. Ar gyfer myfyrwyr Ymchwil Ôl-raddedig, caiff argymhelliad ynghylch gwaharddiad dros dro ei wneud i Gyfarwyddwr yr Ysgol i Raddedigion.

iii) Camau Pellach: Os bydd pryderon yn parhau am eich addasrwydd i astudio, ac nad yw hyn yn debygol o newid yn y dyfodol agos, gall y Panel argymell i'r Awdurdod perthnasol y dylech gael eich tynnu'n ôl o'ch astudiaethau â'r Brifysgol Agored yn gyfan gwbl.

## 3.11 Cyfarfod adolygu Cam 3

3.11.1 Dim ond os byddwch wedi bod yn dilyn Cynllun Gweithredu Manylach y cynhelir cyfarfod adolygu Cam 3. Bydd y Panel Cynhadledd Achos yn ymgynnull ar gyfer y cyfarfod hwn ar y dyddiad adolygu y cytunwyd arno ar gyfer Cam 3.



Corfforir Y Brifysgol Agored drwy Siarter Frenhinol (RC 000391), ac mae'n elusen eithriedig yng Nghymru a Lloegr ac yn elusen gofrestredig yn yr Alban (SC 038302). Caiff y Brifysgol Agored ei hawdurdodi a'i rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol mewn perthynas â'i gweithgarwch eilaidd, sef broceru credyd

Bydd y Panel yn ystyried i ba raddau yr aed i'r afael â'r pryderon yn y Cynllun Gweithredu Manylach, ac yn penderfynu pa un o'r canlyniadau canlynol sy'n gymwys:

i) Rydych yn addas i astudio a gellir cau eich achos. Yn yr achos hwn, byddwch yn cael adroddiad sy'n crynhoi'r canlynol:

- y pryderon gwreiddiol a godwyd
- y camau gweithredu a gymerwyd
- y gwelliannau neu'r newidiadau a wnaed
- arweiniad ar yr ymddygiad a ddisgwylir o hyn ymlaen a phryd y gellir cymryd camau addasrwydd i astudio yn y dyfodol
- manylion unrhyw gefnogaeth sydd ar gael.

ii) Rydych yn addas i astudio, ar yr amod y caiff Cynllun Gweithredu Manylach newydd neu ddiwygiedig ei roi ar waith, a bod cynnydd yn erbyn y cynllun newydd hwn yn cael ei adolygu ar ddyddiad y cytunir arno er mwyn pennu a yw'r pryderon wedi cael eu datrys ar yr adeg honno.

iii) Nid ydych yn addas i astudio ar hyn o bryd, ond mae disgwyl y gallwch barhau i astudio ar ôl cymryd seibiant astudio, lle bo hynny'n gymwys (gweler 3.12).

iv) Nid ystyrir eich bod yn addas i astudio ar hyn o bryd, ac nid yw'r canlyniad hwnnw'n debygol o newid yn y dyfodol agos. Gall y Panel ofyn i chi gymryd seibiant astudio, lle bo hynny'n gymwys (gweler 3.12) cyn cynnal cyfarfod adolygu Cam 3 arall, neu gall argymell y dylech gael eich tynnu'n ôl o'ch astudiaethau â'r Brifysgol Agored.

## 3.12 Seibiannau Astudio

3.12.1 Os yw'n bosibl, byddwn yn eich cefnogi i gymryd seibiant astudio neu ddysgu os ystyrir mai dyma'r opsiwn gorau ar gyfer eich iechyd, eich diogelwch neu'ch llesiant, neu ar gyfer diogelwch a llesiant myfyrwyr eraill neu staff. Gallwch gymryd seibiant astudio am hyd at flwyddyn ar y tro. Gellir adnewyddu seibiant astudio'n flynyddol hyd at seibiant o ddwy flynedd, os gellir bodloni amodau penodol. Os ydych yn astudio modiwl neu gymhwyster israddedig neu ôl-raddedig a addysgir, mae mwy o



Corfforir Y Brifysgol Agored drwy Siarter Frenhinol (RC 000391), ac mae'n elusen eithriedig yng Nghymru a Lloegr ac yn elusen gofrestredig yn yr Alban (SC 038302). Caiff y Brifysgol Agored ei hawdurdodi a'i rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol mewn perthynas â'i gweithgarwch eilaidd, sef broceru credyd

wybodaeth am seibiannau astudio ar gael yn y Polisi Newid Eich Cynlluniau Astudio.

3.12.2 Efallai na fydd modd cymryd seibiant astudio neu ddysgu neu ymestyn seibiant presennol bob amser yn dibynnu ar eich cymhwyster cofrestredig a'ch amgylchiadau penodol. Yn yr achos hwn, cewch gyfle i drafod eich amgylchiadau unigol ag aelod priodol o'r staff.

### 3.13 Ailgofrestru ar ôl Seibiant Astudio

3.13.1 Ar ddiwedd seibiant astudio, ni allwch gofrestru'n awtomatig ar gyfer unrhyw gwrs, cymhwyster neu fodiwl. Yn lle hynny, bydd Panel Cynhadledd Achos Cam 3 yn cyfarfod eto i benderfynu a ydych yn addas i ailgofrestru, ac efallai y bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth i gefnogi eich cais i ddychwelyd i astudio. Byddwn yn disgwyl i chi roi'r dystiolaeth y byddwn yn gofyn amdani, er mwyn gallu hwyluso eich proses o ddychwelyd i astudio. Os na fyddwch yn darparu'r dystiolaeth y gofynnwyd amdani, ac os na fyddwch yn rhoi cydsyniad i ni gael y dystiolaeth honno, bydd y Panel yn adolygu eich cais i ddychwelyd i astudio ar sail y dystiolaeth sydd ar gael iddo ar y pryd. Dylech fod yn ymwybodol y bydd yn anodd i'r Panel ystyried eich cais i ddychwelyd i astudio yn llawn heb dystiolaeth feddygol neu broffesiynol ategol.

3.13.2 Os bydd y Panel Cynhadledd Achos yn cytuno y gallwch ddychwelyd i astudio, byddwn yn trefnu eich bod yn cael trafodaeth â Chynghorydd Addysgol, neu aelod perthnasol o'r staff ar gyfer eich cymhwyster neu raglen astudio, er mwyn sicrhau eich bod yn dychwelyd i astudio mor rhwydd â phosibl. Byddant yn eich hysbysu am y camau y bydd angen i chi eu cymryd er mwyn ailgofrestru ac yn eich cefnogi drwy'r broses hon.

---

## 4. Cyfrinachedd a rhannu gwybodaeth

4.1 Mae prosesu data sy'n gysylltiedig â'r Polisi hwn yn rhan o'n tasg gyhoeddus o gyflwyno cymwysterau Addysg Uwch, mewn perthynas â llesiant myfyrwyr. Mae'r adran hon yn cynnwys mwy o fanylion am sut rydym yn prosesu data. Ceir rhagor o wybodaeth am sut rydym yn defnyddio, yn storio ac yn rhannu data yn yr Hysbysiadau Preifatrwydd i Fyfyrwyr.



Corfforir Y Brifysgol Agored drwy Siarter Frenhinol (RC 000391), ac mae'n elusen eithriedig yng Nghymru a Lloegr ac yn elusen gofrestredig yn yr Alban (SC 038302). Caiff y Brifysgol Agored ei hawdurdodi a'i rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol mewn perthynas â'i gweithgarwch eilaidd, sef broceru credyd

4.2 Os byddwch yn datgelu gwybodaeth am anabledd i ni yn ystod ein trafodaethau, byddwn yn cofnodi hyn ar eich cofnod myfyriwr. Gofynnir i chi a hoffech i'r wybodaeth hon gael ei rhannu ag aelodau perthnasol o'r staff,

a all siarad â chi am gymorth ychwanegol a all fod ar gael. Dim ond os byddwch yn cytuno y caiff y wybodaeth hon ei rhannu.

4.3 Efallai y byddwch yn teimlo y bydd datgelu data personol (neu ddata categori arbennig fel y cyfeiriwyd atynt gynt) fel gwybodaeth am iechyd corfforol neu feddyliol, yn helpu i esbonio eich amgylchiadau fel rhan o'r gweithdrefnau Addasrwydd i Astudio. Bydd angen i chi gydsynio i ni gofnodi a defnyddio'r math hwn o ddata fel rhan o'r Polisi hwn. Byddwn yn gofyn i chi cyn i ni gofnodi unrhyw data categori arbennig ar eich cofnod myfyriwr, a gallwch dynnu'ch cydsyniad i ni ddefnyddio'r data categori arbennig hyn yn ôl unrhyw bryd.

4.4 Gallwch ofyn i unrhyw data categori arbennig a gesglir o dan y Polisi hwn gael eu tynnu oddi ar ein systemau os byddwch yn tynnu eich cydsyniad yn ôl. Mewn achosion o'r fath, byddwn yn tynnu'r wybodaeth o'n cofnodion.

4.5 Os byddwch yn cymryd seibiant astudio neu ddysgu fel rhan o'r Polisi hwn, boed yn seibiant gwirfoddol neu'n seibiant wedi'i orfodi gan Y Brifysgol Agored, fel arfer byddwn yn nodi rhai amodau y bydd angen i chi eu bodloni cyn y gallwch ailgofrestru. Mae'n debygol mai darparu tystiolaeth (a nodir gennym ni) eich bod yn ddigon da i ddychwelyd i astudio fydd hyn.

4.6 O dan amgylchiadau arferol, ni fydd eich data'n cael eu rhannu â thrydydd partïon y tu allan i'r Brifysgol Agored oni chaiff hynny ei nodi yn yr Hysbysiad Preifatrwydd i Fyfyrwyr sy'n berthnasol i'ch astudiaeth. Os bydd angen rhannu'r data, byddwn yn ceisio eich cydsyniad. Yr unig amgylchiadau lle y gallem rannu eich data â sefydliadau eraill heb eich cydsyniad yw'r rhai a bennir yn Neddf Diogelu Data 2018 Atodlen 1 paragraffau 1, 10 a 18. Gweler y Rhestr Termau.

4.7 O dan rai amgylchiadau, er enghraifft, os oes gennym bryderon am y risg o niwed i chi neu bobl eraill, efallai y bydd angen i'r Brifysgol Agored gysylltu â thrydydd parti fel yr Heddlu, ysbyty, gwasanaethau seiciatrig, gweithiwr achos, Gwasanaethau Cymdeithasol (neu wasanaeth tebyg) neu Eiriolwr enwebedig i drafod eich ymddygiad. Mewn achosion o'r fath, nid oes angen i ni gael eich cydsyniad i gysylltu â'r awdurdodau hyn.

4.8 Cedwir data sy'n gysylltiedig â'ch Addasrwydd i Astudio ar eich cofnod dros gyfnod eich cymhwyster ac fel y nodir yn yr Hysbysiad Preifatrwydd i Fyfyrwyr.



Corfforir Y Brifysgol Agored drwy Siarter Frenhinol (RC 000391), ac mae'n elusen eithriedig yng Nghymru a Lloegr ac yn elusen gofrestredig yn yr Alban (SC 038302). Caiff y Brifysgol Agored ei hawdurdodi a'i rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol mewn perthynas â'i gweithgarwch eilaidd, sef broceru credyd

## Dulliau apelio

5.1 Os byddwch am apelio yn erbyn penderfyniad y Panel Cynhadledd Achos Cam 3 neu unrhyw elfen o'r ffordd y cafodd y Polisi hwn ei gymhwyso, darllenwch y Weithdrefn Gwyno ac Apelio i Fyfyrwyr.

## Safonau'r Gymraeg

**An English language version of this Policy is available.**

**Mae fersiwn Saesneg o'r Polisi hwn ar gael hefyd.**

6.1 Mae gan fyfyrwyr sy'n byw yng Nghymru yr hawl i gyfathrebu â'r Brifysgol Agored drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys:

- Gohebiaeth – mae gennych yr hawl i ysgrifennu atom neu anfon e-bost atom yn Gymraeg, a byddwn yn ymateb i chi yn Gymraeg os byddwch yn dymuno i ni wneud hynny.
- Cyfarfodydd – pan fyddwn yn eich gwahodd i gyfarfod fel rhan o'r Polisi, naill ai'n bersonol neu dros y ffôn neu ar-lein, byddwn yn gofyn i chi a fyddwch yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod. Os byddwch yn dewis defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod ac nad yw pawb a fydd yn bresennol yn siaradwyr Cymraeg, byddwn yn trefnu cyfieithydd ar y pryd.

6.2 Gall unrhyw Eiriolwr y byddwch yn ei ddewis i'ch cynrychioli hefyd ddefnyddio'r Gymraeg mewn unrhyw gyfarfod neu ohebiaeth.

6.3 Mae gan Y Brifysgol Agored weithdrefn gwyno benodol hefyd ar gyfer cwynion sy'n ymwneud â Safonau'r Gymraeg. Mae manylion y weithdrefn hon ar gael yn y ddogfen Safonau'r Gymraeg – Ymdrin â Chwynion a Sylwadau.

## Ymrwymiad i Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn Y Brifysgol Agored

Mae polisïau'n cynnwys holl Fyfyrwyr a Dysgwyr Y Brifysgol Agored, Dysgwyr, ni waeth beth yw eu hoedran, statws sifil, statws gofalu neu ddibyniaeth, profiad o ofal, anabledd, statws teuluol, rhywedd, hunaniaeth rhywedd, ailbennu rhywedd, statws priodasol, priodas a phartneriaethau sifil, aelodaeth o'r gymuned Teithwyr, barn wleidyddol,



Corfforir Y Brifysgol Agored drwy Siarter Frenhinol (RC 000391), ac mae'n elusen eithriedig yng Nghymru a Lloegr ac yn elusen gofrestredig yn yr Alban (SC 038302). Caiff y Brifysgol Agored ei hawdurdodi a'i rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol mewn perthynas â'i gweithgarwch eilaidd, sef broceru credyd

beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, cefndir economaidd-gymdeithasol, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol neu statws aelodaeth o undeb llafur.

## Rhoi Gwybod mewn Lle Diogel

Mae'r Brifysgol Agored yn ymroi i greu amgylchedd amrywiol a chynhwysol lle mae pawb yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu trin ag urddas a pharch. Ni fydd gwahaniaethu anghyfreithlon o unrhyw fath yn cael ei oddef yn Y Brifysgol Agored.  Mae Rhoi Gwybod mewn Lle Diogel ar gael trwy adnodd ar-lein y caiff staff, myfyrwyr, dysgwyr ac ymwelwyr eu hannog i roi gwybod am ddigwyddiadau o ymosod, bwlio, aflonyddu, troseddau casineb neu aflonyddu rhywiol drwyddo. Mae hefyd yn rhoi gwybodaeth am yr hyn y gallwch ei wneud os bydd y digwyddiadau hyn yn digwydd i chi neu i rywun rydych yn ei adnabod a ble y gallwch ddod o hyd i gymorth.

# Geirfa

### Cynllun Gweithredu

Cynllun cymorth personol yw Cynllun Gweithredu sy'n nodi'r amodau a'r amserlenni y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn gallu parhau i astudio. Byddwn yn gweithio gyda chi i esbonio pam y byddai o fudd i chi fodloni gofynion academaidd penodol neu gymryd rhan mewn mathau penodol o gymorth a/neu fodloni disgwyliadau sy'n gysylltiedig ag ymddygiad, a chael eich cytundeb i hynny. Bydd gan y Cynllun Gweithredu ddyddiad adolygu penodol a byddwn yn cytuno ar yr hyn a fydd yn digwydd os na fyddwch yn dilyn y cynllun neu'n gwneud y gwelliannau disgwyliedig. Byddwn yn eich hysbysu am enw a manylion cyswllt yr aelod o'r staff a fydd yn cefnogi eich gwaith â'r Cynllun Gweithredu ac yn monitro eich cynnydd yn erbyn y Cynllun.

### Data Categori Arbennig

Mae'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data yn nodi categorïau arbennig o ddata y mae'n rhaid rhoi diogelwch ychwanegol iddynt. Mae'r rhain yn cynnwys eich tarddiad hiliol neu ethnig, credoau crefyddol, barn wleidyddol, aelodaeth o undeb llafur, geneteg, biometreg (lle y'i defnyddir at ddibenion adnabod), iechyd corfforol neu feddyliol, bywyd rhywiol a chyfeiriadedd rhywiol. Caiff gwybodaeth am droseddau neu achosion llys ei thrin yn yr un modd.



Corfforir Y Brifysgol Agored drwy Siarter Frenhinol (RC 000391), ac mae'n elusen eithriedig yng Nghymru a Lloegr ac yn elusen gofrestredig yn yr Alban (SC 038302).  Caiff y Brifysgol Agored ei hawdurdodi a'i rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol mewn perthynas â'i gweithgarwch eilaidd, sef broceru credyd

## Deddf Diogelu Data 2018

Dyma'r amgylchiadau lle y gallwn storio a rhannu eich data personol (gan gynnwys data categori arbennig) heb eich cydsyniad:

- Pan fydd eich iechyd meddwl yn bygwth eich diogelwch personol (Deddf Diogelu Data 2018 atodlen 1 (para 18) Diogelu plant ac unigolion sy'n wynebu risg)
- Pan fydd eich ymddygiad yn cael effaith andwyol ar hawliau ac iechyd a diogelwch eraill (Deddf Diogelu Data 2018 atodlen 1 (para 1) ar gyfer diogelwch cymdeithasol/iechyd a diogelwch)
- Pan fyddai aelod o'r staff yn wynebu achos llys pe na fyddai'r wybodaeth wedi'i datgelu (h.y. roedd trosedd wedi'i chyflawni) Deddf Diogelu Data atodlen 1 (para 10) atal/canfod trosedd.

## Eiriolwr

Eiriolwr yw unrhyw un a gaiff ei benodi gan fyfyriwr i siarad a/neu weithredu mewn ffordd arall ar ei ran. Rôl Eiriolwr yw grymuso'r myfyriwr i gyfathrebu'n annibynnol a gwneud penderfyniadau hyddysg ynglŷn â'i astudiaethau. Mae gwybodaeth am ddefnyddio eiriolwr a sut i benodi eiriolwr ar gael yn y Polisi Eirioli.

## Ffrind neu Gynrychiolydd

Gall y myfyriwr enwebu ffrind neu gynrychiolydd i'w gefnogi yn ystod y broses Addasrwydd i Astudio. Ni chaiff unrhyw ffrind neu gynrychiolydd a enwebir fod yn bresennol gyda'r myfyriwr fel cyfreithiwr neu fargyfreithiwr. Mae'r Brifysgol Agored yn cadw'r hawl i ohirio'r gwrandawiad a gofyn i'r myfyriwr enwebu ffrind neu gynrychiolydd arall os yw o'r farn bod y person a enwebwyd yn wreiddiol yn rhwystro'r broses.

## Microgymwysterau

Cyrsiau datblygiad proffesiynol byr yw Microgymwysterau sydd wedi'u cynllunio i wella sgiliau unigolion yn y gweithle mewn diwydiannau sy'n tyfu'n gyflym heb ymrwymiad amser a chost gradd lawn. Maent yn cynnwys credyd academaidd y gellir ei ddefnyddio tuag at radd, neu gellir eu hastudio fel cwrs ar wahân. Mae pob Microgymhwyster yn cynnwys asesiad ar-lein ffurfiol ac mae'n cyrraedd y safonau a bennwyd gan y Fframwaith Microgymwysterau Cyffredin.



Corfforir Y Brifysgol Agored drwy Siarter Frenhinol (RC 000391), ac mae'n elusen eithriedig yng Nghymru a Lloegr ac yn elusen gofrestredig yn yr Alban (SC 038302). Caiff y Brifysgol Agored ei hawdurdodi a'i rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol mewn perthynas â'i gweithgarwch eilaidd, sef broceru credyd

## Oedolyn sy'n Agored i Niwed neu'n cael ei Amddiffyn

Oedolyn sy'n agored i niwed yw unigolyn 18 oed neu drosodd (neu 16 oed yn yr Alban ac y cyfeirir ato fel “oedolyn sy'n cael ei amddiffyn”) y mae angen gwasanaethau arno oherwydd anabledd meddyliol neu anabledd arall, oedran neu salwch, neu y gall fod angen gwasanaethau o'r fath arno, ac na all, neu na all o bosibl, gymryd gofal ohono'i hun nac amddiffyn ei hun rhag niwed, camdriniaeth neu gam-fanteisio sylweddol, yn cynnwys cael ei dynnu i mewn i derfysgaeth.

## Panel Cynhadledd Achos

Bydd y Panel Cynhadledd Achos Cam 3 hwn yn cynnwys staff academaidd a staff cymorth myfyrwyr (yn cynnwys arbenigwyr cymorth anabledd lle y bo'n briodol), sy'n briodol i'ch cymhwyster a'r wlad rydych yn astudio ynddi. Ar gyfer myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig, bydd y Panel yn cynnwys aelod o'r tîm Graddau Ymchwil. Ar gyfer myfyrwyr mewn amgylcheddau diogel, bydd y Panel yn cynnwys y Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Cymorth Ychwanegol i Fyfyrwyr, Gwasanaethau Academaidd.

## Partïon Allanol

Yn y polisi hwn, rydym yn cyfeirio at bartïon allanol mewn perthynas ag asiantaethau y gall fod rhwymedigaeth arnom i rannu gwybodaeth â nhw. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys Atgyfeiriadau Diogelu ac achosion Prevent, a gaiff eu hatgyfeirio drwy Wasanaethau Amddiffyn Plant ac Oedolion neu Channel/Paneli Amlasiantaeth Prevent (PMAP). Rhaglen sy'n cael ei rhedeg gan awdurdodau lleol yw Channel/PMAP sy'n canolbwyntio ar roi cymorth cynnar i bobl y nodir eu bod mewn perygl o gael eu denu i derfysgaeth. Mae Channel yn cyfeirio at baneli yng Nghymru a Lloegr tra bod PMAP ar waith yn yr Alban.

## Person priodol sy'n gyfarwydd â rhoi cymorth

Os ydych wedi eich cofrestru ar gyfer gradd israddedig, gradd ôl-raddedig a addysgir (ac eithrio TAR yng Nghymru), neu brentisiaeth, y person a fydd yn cysylltu â chi i drafod eich addasrwydd i astudio ar Gam 1 fydd Cynghorydd Addysgol.

Os ydych yn Fyfyriwr Ymchwil Ôl-raddedig, bydd yr Uwch-reolwr, Myfyrwr Ymchwil Ôl-raddedig, yn cysylltu â chi.

Os ydych wedi eich cofrestru ar gyfer TAR yng Nghymru, bydd eich tiwtor cwricwlwm neu Gadeirydd Tîm y Modiwl yn cysylltu â chi.



Corfforir Y Brifysgol Agored drwy Siarter Frenhinol (RC 000391), ac mae'n elusen eithriedig yng Nghymru a Lloegr ac yn elusen gofrestredig yn yr Alban (SC 038302). Caiff y Brifysgol Agored ei hawdurdodi a'i rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol mewn perthynas â'i gweithgarwch eilaidd, sef broceru credyd

Os ydych wedi eich cofrestru ar gyfer Cymhwyster Galwedigaethol, bydd Rheolwr y Ganolfan (Y Ganolfan Asesu Cymwysterau Galwedigaethol) yn cysylltu â chi.

Os ydych wedi eich cofrestru ar gyfer Microgymhwyster ar FutureLearn, bydd aelod o Dîm Cymorth FutureLearn yn cysylltu â chi.

## Un o Fyfyrwyr Y Brifysgol Agored

At ddibenion y Polisi hwn, rydych yn un o fyfyrwyr Y Brifysgol Agored os ydych wedi'ch cofrestru ar hyn o bryd ar gyfer cymhwyster neu fodiwl, neu os ydych wedi astudio modiwl yn ystod un o'r ddwy flwyddyn academaidd ddiwethaf.

## Uwch-awdurdod

Yr Uwch-awdurdod yw'r unigolyn a fydd yn penderfynu a ddylai achos Addasrwydd i Astudio symud ymlaen i Gam 2 a'r unigolyn a fydd yn rheoli'r Cam hwnnw. Fel arfer, bydd yr Uwch-awdurdod yn gweithio yn yr un maes, ar lefel uwch, â'r person priodol a fu'n rheoli Cam 1. Bydd yn gyfarwydd ag anghenion cymorth myfyrwyr a sut i gymhwyso'r Polisi hwn.

Os ydych wedi eich cofrestru ar gyfer gradd israddedig neu ôl-raddedig a addysgir (ac eithrio TAR yng Nghymru), prentisiaeth neu gymhwyster galwedigaethol, Uwch-reolwr yn y Tîm Cymorth Myfyrwyr fydd yr uwch-awdurdod.

Os ydych yn fyfyriwr ymchwil ôl-raddedig, y Pennaeth Graddau Ymchwil fydd yr uwch-awdurdod.

Os ydych wedi eich cofrestru ar gyfer TAR yng Nghymru, Cadeirydd Tîm y Modiwl neu Gyfarwyddwr y Rhaglen TAR yng Nghymru (yn dibynnu ar bwy a gymerodd ran ar Gam 1) fydd yr Uwch-awdurdod.

Os ydych wedi eich cofrestru ar gyfer microgymhwyster, y Pennaeth Gweithrediadau ar gyfer Microgymwysterau fydd yr Uwch-awdurdod.

Os ydych o dan ofal Tîm Myfyrwyr mewn Amgylcheddau Diogel Y Brifysgol Agored yn ystod eich astudiaethau, Uwch-reolwr y Tîm Myfyrwyr mewn Amgylcheddau Diogel fydd yr uwch-awdurdod.

## Ymddygiad sy'n Groes i Egwyddorion y Siarter Myfyrwyr

Gall ymddygiad sy'n groes i egwyddorion y Siarter Myfyrwyr gynnwys y canlynol i gyd, neu rai ohonynt, ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt:



Corfforir Y Brifysgol Agored drwy Siarter Frenhinol (RC 000391), ac mae'n elusen eithriedig yng Nghymru a Lloegr ac yn elusen gofrestredig yn yr Alban (SC 038302). Caiff y Brifysgol Agored ei hawdurdodi a'i rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol mewn perthynas â'i gweithgarwch eilaidd, sef broceru credyd

- lle bydd eich ymddygiad pan fyddwch yn bresennol mewn digwyddiadau addysgu, dysgu neu gymorth (yn bersonol neu ar-lein) yn atal amcanion y profiad dysgu rhag cael eu cyflawni'n effeithiol. Mae hyn yn gyson â Gwerthoedd 1 a 9 y Siarter Myfyrwyr.
- lle bo gan staff reswm dros gredu bod problem iechyd corfforol neu feddyliol yn dylanwadu ar yr ymddygiad sy'n groes i'r Siarter Myfyrwyr a lle bo angen cymorth y tu hwnt i'r addasiad rhesymol a gaiff ei ddiffinio yn Neddf Cydraddoldeb 2010 er mwyn ceisio diwallu eich anghenion, neu os nad ydych yn cydweithredu â ni er mwyn helpu i ddiwallu eich anghenion. Mae hyn yn gyson â Gwerth 2 y Siarter Myfyrwyr.
- lle na allwch gymryd rhan yn eich astudiaethau, neu nad ydych yn barod i wneud hynny, fel y dangosir drwy beidio ag ymateb i ohebiaeth gan staff a/neu beidio â chyflwyno eich aseiniadau a'ch tasgau asesu. Mae hyn yn gyson â Gwerth 10 y Siarter Myfyrwyr.
- lle mae amlder, amseriad neu natur eich cyswllt â staff Y Brifysgol Agored yn effeithio ar lesiant myfyrwyr neu staff neu'n tynnu oddi wrth y cymorth a gaiff myfyrwyr eraill neu oddi wrth brosesau gweinyddol neu brosesau addysgu'r Brifysgol. Mae hyn yn gyson â Gwerth 2 y Siarter Myfyrwyr. Mae enghreifftiau o gyswllt amhriodol yn cynnwys y canlynol (ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt):
  - Cyswllt mynych â thiwtoriaid yn hwyr gyda'r nos y tu allan i'w horiau gwaith
  - Cyswllt mynych nad yw'n gysylltiedig ag astudiaethau e.e. ceisio dechrau sgyrsiau â staff am eu bywyd personol nhw neu'ch bywyd personol chi
  - Negeseuon hirfaith
  - Cynnwys ar fforymau sy'n peri loes i bobl eraill neu sy'n eich gwneud yn agored i niwed
  - Disgwyl atebion i ohebiaeth y tu allan i'r amseroedd ymateb a gyhoeddwyd ar gyfer staff.

Nodwch y caiff unrhyw ymddygiadau sydd â goblygiadau o ran diogelwch eu hatgyfeirio'n syth at y Tîm Atgyfeiriadau Diogelu. Caiff unrhyw ymddygiadau sy'n groes i Ddyletswydd Prevent (Gwrthderfysgaeth) eu hatgyfeirio'n syth at Gydgysylltydd Prevent y Brifysgol.



Corfforir Y Brifysgol Agored drwy Siarter Frenhinol (RC 000391), ac mae'n elusen eithriedig yng Nghymru a Lloegr ac yn elusen gofrestredig yn yr Alban (SC 038302). Caiff y Brifysgol Agored ei hawdurdodi a'i rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol mewn perthynas â'i gweithgarwch eilaidd, sef broceru credyd

### Ysgol Gyflogi

Ysgol sy'n cyflogi athro dan hyfforddiant sy'n dilyn y rhaglen TAR. Caiff athrawon dan hyfforddiant eu cyflogi ar gyfradd athro heb gymhwyso fel y'i pennir gan y strwythur cyflog cenedlaethol i athrawon yng Nghymru.

# Dogfennaeth Gysylltiedig

Cyfeiriwch at y ddogfennaeth ganlynol ar y cyd â'r ddogfen hon:

- Polisïau neu weithdrefnau myfyrwyr mewnol cysylltiedig:
  - Polisi Hygyrchedd
  - Eirioli: canllawiau a gweithdrefn
  - Polisi Newid Eich Cynlluniau Astudio
  - Cod Ymarfer ar gyfer Disgyblu Myfyrwyr
  - Gweithdrefn Gwyno ac Apelio
  - Amodau Cofrestru
  - Amodau Cofrestru i Fyfyrwyr Ymchwil Ôl-raddedig
  - Polisi Addasrwydd i Ymarfer
  - Llawlyfr Graddau Ymchwil
  - Siarter Myfyrwyr
  - Hysbysiad Preifatrwydd i Fyfyrwyr
- Deddfwriaeth berthnasol:
  - Deddf Cydraddoldeb 2010 yng Nghymru, Lloegr a'r Alban
  - Deddf Gogledd Iwerddon 1998
  - Deddf Diogelu Data 2018
  - Rheoliadau Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 (Diwygio) (Gogledd Iwerddon) 2004



Corfforir Y Brifysgol Agored drwy Siarter Frenhinol (RC 000391), ac mae'n elusen eithriedig yng Nghymru a Lloegr ac yn elusen gofrestredig yn yr Alban (SC 038302). Caiff y Brifysgol Agored ei hawdurdodi a'i rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol mewn perthynas â'i gweithgarwch eilaidd, sef broceru credyd

# Eglurhad pellach

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am gynnwys y ddogfen hon a sut i'w ddehongli a'ch bod yn fyfyriwr ar un o gyrsiau israddedig neu ôl-raddedig a addysgir Y Brifysgol Agored ar hyn o bryd, gallwch gysylltu â'ch Tîm Cymorth Myfyrwyr drwy'r opsiwn ‘Contact Us’ yn y Ganolfan Gymorth.

Fel arall, cysylltwch â'r swyddfa berthnasol a restrir isod. Gall y staff roi gwybodaeth i chi am sut y caiff y polisi hwn ei roi ar waith mewn perthynas â'ch cymhwyster penodol:

- Israddedig, ôl-raddedig a addysgir – Cysylltwch â ni (ffoniwch +44 (0)300 303 5303) neu cysylltwch â'ch Tîm Cymorth Myfyrwyr drwy'r opsiwn ‘Contact Us’ yn y Ganolfan Gymorth
- Myfyrwr Ymchwil Ôl-raddedig – research-degrees-office@open.ac.uk.
- Dysgwyr Prentisiaeth – Tîm Cymorth ac Ymrestru ar Brentisiaeth apprentice-support@open.ac.uk neu ffoniwch: 0300 3034121
- Myfyrwr TAR yng Nghymru – ffoniwch 029 2047 1170 neu anfonwch e-bost i Wales-PGCE@open.ac.uk neu TAR-Cymru@open.ac.uk
- Dysgwyr Cymwysterau Galwedigaethol – Canolfan Asesu Cymwysterau Galwedigaethol ar 01908 653774 neu drwy e-bost i vq-enquiries@open.ac.uk
- Dysgwyr Meicrogymwysterau sy’n astudio drwy FutureLearn – e-bostiwch mc.support@futurelearn.com.
- Dysgwyr Meicrogymwysterau sy’n astudio trwy Amgylchedd Dysgu Rhithwir y Brifysgol Agored (VLE) – Cysylltwch â ni drwy'r Ganolfan Gymorth

---

## Adborth

Croesawir sylwadau ac adborth am y polisi hwn a sut y gellid ei gwella. Cyflwynwch y rhain i SPR-Policy-Team@open.ac.uk.

---

## Crynodeb o Newidiadau Sylweddol

a) Mae geiriad y Polisi wedi cael ei ddiwygio drwyddo draw i'w wneud yn fwy eglur.

b) Caiff ymadrodd newydd ei ddefnyddio yn y Crynodeb o'r Polisi, sef ‘Ymddygiad sy'n Groes i'r Siarter Myfyrwyr’, a cheir diffiniad llawn ohono yn y rhestr termau. Rhoddir enghreifftiau o ymddygiad o'r fath yn y diffiniad. Mae'r ymadrodd ‘ymddygiad annerbyniol’ wedi cael ei dynnu o'r Crynodeb a'r Polisi cyfan.



Corfforir Y Brifysgol Agored drwy Siarter Frenhinol (RC 000391), ac mae'n elusen eithriedig yng Nghymru a Lloegr ac yn elusen gofrestredig yn yr Alban (SC 038302). Caiff y Brifysgol Agored ei hawdurdodi a'i rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol mewn perthynas â'i gweithgarwch eilaidd, sef broceru credyd

c) Mae'r adran dogfennaeth gysylltiedig wedi cael ei diweddaru.

d) Nodwyd bod Gwerthoedd 9 ac 11 y Siarter Myfyrwyr yn gyson â'r Polisi hwn.

e) Gwnaed darpariaeth drwy baragraff 2.7 i'n galluogi i wahardd Myfyrwyr a Dysgwyr dros dro mewn achosion difrifol tra bod Panel Cynhadledd Achos yn cael ei gynnull os oes pryderon sylweddol bod perygl i ddiogelwch neu lesiant myfyrwyr, dysgwyr neu staff neu os oes effaith ddifrifol ar addysg, cymorth neu broses weinyddol Y Brifysgol Agored.

f) Gall Myfyrwyr a Dysgwyr ofyn i ffrind neu gynrychiolydd eu cefnogi yn ystod cyfarfodydd ar Gamau 2 a 3. Mae'r geiriad hwn yn cyfateb i'r ddarpariaeth debyg yn y Cod Ymarfer ar gyfer Disgyblu Myfyrwyr.

g) Ychwanegwyd paragraff 3.1 i ddisgrifio'r egwyddorion cyffredinol a fydd yn gymwys pe bai'r Brifysgol Agored yn rhoi'r Polisi hwn ar waith.

h) Nodwyd yn glir drwy gydol y Polisi, ac yn enwedig ym mharagraff 3.6, y caiff Y Brifysgol Agored ddilyn y Polisi hwn heb gytundeb y Myfyriwr neu'r Dysgwr.

i) Mae paragraff 3.3 yn egluro y gall y Polisi hwn gael ei ddefnyddio yn lle'r Fframwaith Cymorth i Fyfyrwyr neu ochr yn ochr ag ef ar gyfer myfyrwyr sydd wedi'u cofrestru ar y rhaglen TAR yng Nghymru.

j) Nodwyd yn glir drwy gydol y Polisi, gyda'r cyfeiriad cyntaf ym mharagraff 3.7.2, pwy fydd yn cysylltu â Myfyriwr neu Ddysgwr i drafod ei achos. Mae'r ymadrodd, person priodol sy'n gyfarwydd â rhoi cymorth, wedi cael ei fabwysiadu a cheir disgrifiad llawn ohono yn y rhestr termau.

k) Mae'r term Uwch-awdurdod, y cyfeiriwyd ato gyntaf ym mharagraff 3.7.7, wedi cael ei ddisgrifio'n llawn ar gyfer pob rhaglen astudio wahanol. Mae'r diffiniadau i'w gweld yn y rhestr termau.

l) Mae Adran 3.8, Cam 2 y Weithdrefn Addasrwydd i Astudio, wedi cael ei hailenwi yn 'Pryderon Parhaus neu Ddwysach'.

m) Mae'r rhestr termau wedi cael ei diweddaru a'i gwella i gynnwys diffiniadau ar gyfer mwy o'r termau allweddol a ddefnyddir yn y Polisi.

n) Mae'r adran Eglurhad Pellach wedi cael ei diwygio ac mae bellach yn cynnwys pwyntiau cyswllt priodol ar gyfer pob rhaglen astudio sy'n dod o dan gwmpas y Polisi hwn.



Corfforir Y Brifysgol Agored drwy Siarter Frenhinol (RC 000391), ac mae'n elusen eithriedig yng Nghymru a Lloegr ac yn elusen gofrestredig yn yr Alban (SC 038302). Caiff y Brifysgol Agored ei hawdurdodi a'i rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol mewn perthynas â'i gweithgarwch eilaidd, sef broceru credyd

## Polisïau a ddisodlir gan y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn disodli'r fersiwn flaenorol o'r Polisi Addasrwydd i Astudio, dyddiedig Medi 2022. Gellir canfod crynodeb o newidiadau sylweddol o gymharu â fersiwn flaenorol y Polisi Addasrwydd i Astudio o dan y pennawd Crynodeb o newidiadau sylweddol.

| | |
|---|---|
| Rhif y fersiwn: 1.0 | Cymeradwywyd gan: Pwyllgor Profiad Myfyrwyr, Mai 2023 |
| Yn weithredol o: Mehefin 2023 | Dyddiad adolygu: Mawrth 2024 |

Corfforir Y Brifysgol Agored drwy Siarter Frenhinol (RC 000391), ac mae'n elusen eithriedig yng Nghymru a Lloegr ac yn elusen gofrestredig yn yr Alban (SC 038302).  Caiff y Brifysgol Agored ei hawdurdodi a'i rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol mewn perthynas â'i gweithgarwch eilaidd, sef broceru credyd